# 2511-05 Datblygwr Digidol (Adnoddau Addysgol)

## Cyflog: £35,403 – £38,745 y flwyddyn (Gradd 7)

## Math o gontract: 2x Llawn amser (36.5 awr yr wythnos), Tymor penodol tan 28 Chwefror 2027

**Yr her**

Yn CBAC, rydym yn cyfrannu at ein cymunedau addysg drwy ddarparu cymwysterau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol, fel y gall ein dysgwyr gael y cyfle i gyrraedd eu potensial yn llawn. Dyma gyfle gwych felly i fod yn rhan o gorff sy'n annog ac yn gwella meddyliau'r dyfodol.

**Y rôl**

Fel Datblygwr Digidol, byddwch chi'n cydweithio ag eraill ar draws y sefydliad i gynhyrchu llwyfannau ac offer adnoddau addysgol arloesol sy'n briodol i oedran ac yn addas i'r pwrpas i gefnogi athrawon a myfyrwyr fel ei gilydd. Byddwch chi'n ymuno â thîm arloesol ac yn gweithio ar brojectau amrywiol ar draws y sefydliad, gan gynnig syniadau newydd a gwella eich sgiliau mewn technolegau a methodolegau sefydledig. Mae datblygiad personol drwy rannu gwybodaeth yn ganolog i ethos ein tîm a byddwch chi'n cael eich annog i barhau â DPP a gwella eich setiau sgiliau drwy gydol eich amser gyda ni. Mae cyfle hefyd i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu dulliau a nodweddion deallusrwydd artiffisial (AI), gan gefnogi arloesedd wrth greu a darparu adnoddau.

**Amdanoch chi**

Rydym yn awyddus i glywed gan ddatblygwyr sydd â dealltwriaeth dda o HTML, CSS, JavaScript, TypeScript, React.js, Node.js, Git ac AWS. Dylai ymgeiswyr fod yn fedrus mewn technolegau stac cyflawn ochr flaen ac ochr gefn a bod â diddordeb mewn adnoddau addysg ddigidol. Bydd ymdrin â sawl tasg ar unwaith yn rhywbeth a ddaw'n rhwydd iddyn nhw a byddant yn gallu rheoli eu llwyth gwaith eu hunain, ochr yn ochr â gweithio mewn amgylcheddau lle mae angen talu llawer o sylw i fanylion. Bydd yr ymgeisydd cywir yn mwynhau cydweithio ag eraill ac yn gallu defnyddio dysgu hunangyfeiriedig i ganfod datrysiadau i broblemau technegol cymhleth neu newydd. Yn ddelfrydol, dylai ymgeiswyr fod ar gael i ddechrau ar 1 Mawrth 2026 neu'n fuan ar ôl hynny.

**Buddion**

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle hyblyg a chynhwysol i weithio. Rydym yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd ag 16 o ddyddiau statudol ac ychwanegol (wedi'i addasu ar gyfer patrymau gweithio rhan amser a chywasgedig), cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim, cynllun pensiwn hael ac amrywiol bolisïau sy'n ystyriol o deuluoedd.

Rydym yn gweithredu ar sail model gweithio hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng gweithio yn swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, gan ddibynnu ar anghenion busnes. Oherwydd hynny, gwahoddir ceisiadau gan unigolion ledled y DU ond noder os gwelwch yn dda y bydd angen gweithio'n rheolaidd o'n swyddfa yng Nghaerdydd. Gellir trafod hyblygrwydd, ond ar hyn o bryd mae'r tîm yn y swyddfa o leiaf un diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd.

Os hoffech wybod mwy am y rôl hon, neu am weithio yn CBAC, peidiwch ag oedi cyn cysylltu ag aelod o'n tîm Adnoddau Dynol (ad@cbac.co.uk). Byddan nhw'n fwy na pharod i helpu.

## Dyddiad cau: 23:59, dydd Sul 01 Chwefror 2026

**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 09 Chwefror 2026**

245 Western Avenue, Cardiff CF5, 2YX
Tel 029 2026 5002 / 5189 / 5015
www.wjec.co.uk

## DISGRIFIAD SWYDD

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Digidol |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid |
| **Isadran:** | Adnoddau Addysgol |
| **Yn atebol i:** | **Datblygwr Arweiniol – Digidol** |
| **Gradd:** | 7 |
| **Lleoliad:** | Rhodfa'r Gorllewin |

## Prif Bwrpas y Swydd:

Fel Datblygwr Digidol, byddwch chi'n creu offer adnoddau arloesol sy'n briodol i oedran ac yn addas i'r pwrpas i gefnogi anghenion manylebau CBAC ac Eduqas. Gan weithio'n rhan o dîm arloesol, byddwch chi'n cyfrannu at brojectau amrywiol ar draws y sefydliad, gan gynnig syniadau newydd a gwella eich sgiliau mewn technolegau a methodolegau mwy cyfarwydd.

Byddwch chi'n cefnogi Datblygwyr Arweiniol i ddilyn prosesau gwaith diffiniedig fel bod y llif gwaith yn cael ei symleiddio a chynhyrchiant yn gwella, gan gydweithio'n effeithiol i gynhyrchu offer adnoddau digidol mewn modd amserol.

Efallai y byddwch chi hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a gweithredu dulliau a nodweddion AI cyffrous dan arweiniad y Peiriannydd AI, gan gefnogi arloesedd wrth greu a darparu adnoddau.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

**Datblygu Adnoddau Addysgol**

- Gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i greu llwyfannau adnoddau dysgu o'r cam cysyniad i'r cam cyflwyno a'u defnyddio.

**Deallusrwydd Artiffisial**

- Cynorthwyo i integreiddio nodweddion AI mewn cynhyrchion digidol presennol neu newydd, gan sicrhau defnyddioldeb, hygyrchedd a sicrhau eu bod yn cyfateb i amcanion addysgol.
- Bod yn ymwybodol o dechnolegau AI cynyddol amlwg sy'n berthnasol i addysg ddigidol, gan rannu mewnwelediadau â'r tîm datblygu ehangach.

**Cydweithio**

- Cydweithio â'r Datblygwyr Arweiniol a'r tîm datblygu ehangach.
- Cydweithio'n rhan o dîm i ddeall cronfeydd codau presennol a datblygu cod sydd wedi'i brofi, yn ddarllenadwy, wedi'i ddogfennu'n dda, y gellir ei addasu ac sydd wedi'i adeiladu gan ystyried arferion gorau'r diwydiant (safonau cod).
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd sbrint a chyfrannu at greu a mireinio arteffactau sbrint yn unol ag egwyddorion Agile ac amcanion y tîm.

- Sefydlu sianeli cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr drwy gydol y broses ddylunio a gweithredu, gan gyfleu cysyniadau technegol cymhleth yn glir a chryno.
- Rhannu gwybodaeth a phrofiad ar draws y tîm.

**Rheoli Projectau**

- Gyda chefnogaeth y Datblygwyr Arweiniol, gweithio ar amrywiaeth o brojectau digidol a phecynnau gwaith, gan sicrhau bod terfynau amser a chytundebau lefel gwasanaeth yn cael eu bodloni; blaenoriaethu llwythi gwaith yn annibynnol yn unol â gofynion y busnes.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am gynnydd unrhyw broject i arweinydd y project, gan sicrhau bod terfynau amser projectau wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni priodol a goddefiannau risg wedi'u gosod.

**Datblygiad Personol**

- Dilyn prosesau gwelliant parhaus a mireinio i gaffael sgiliau a dulliau ychwanegol, gan ymgymryd â chymwysterau perthnasol i'r diwydiant (lle bo'n gymwys), fel Ardystiad AWS, gan sicrhau bod parhau i ddatblygu'n bersonol yn rhan flaenllaw o'r rôl.
- Bod yn ymwybodol o'r safonau diwydiant diweddaraf i sicrhau bod CBAC yn parhau i fod yn flaenllaw o ran addysg ddigidol.
- Bod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf wrth ddatblygu ar draws llwyfannau a sut gallai cymhwyso'r rhain gefnogi, datblygu a gwella ymarfer da yn yr ystafell ddosbarth.

**Arall**

- Deall a chydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau CBAC a nodir yn y Llawlyfr Staff; yn benodol, sicrhau eich bod yn deall eich rôl a'ch cyfrifoldebau mewn perthynas â Diogelu, Diogelwch Gwybodaeth, GDPR, Cyfrinachedd, yr iaith Gymraeg ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.
- Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gefnogi egwyddorion ac arfer cydraddoldeb cyfle fel y'i nodir ym Mholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CBAC, gan ymgorffori Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mhob project, polisi ac arfer.
- Bod yn aelod rhagweithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n gadarnhaol at gyfarfodydd a phrojectau i gefnogi nodau ac amcanion CBAC.
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu personol a phroffesiynol sy'n berthnasol i'r rôl.
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl y galw sy'n gymesur â gradd y swydd.

## Manyleb y Person

| | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd:** | Datblygwr Digidol |
| **Adran:** | Digidol a Thrawsnewid – Adnoddau Addysgol |

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol, ond nid oes disgwyl i ymgeiswyr fodloni pob un o'r rhain. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad yn y rôl.

## Sgiliau a Galluoedd

**Hanfodol**

- Tystiolaeth o sgiliau o'r technolegau stac cyflawn ochr flaen ac ochr gefn craidd canlynol neu dechnolegau eraill uniongyrchol gyffelyb:
  - HTML
  - JavaScript
  - TypeScript
  - REACT
  - Node.js
  - Git
  - gwasanaethau cwmwl AWS (e.e. EC2, S3, Lambda, API Gateway) neu brif ddarparwyr cwmwl eraill (e.e. Azure, GCP)

**Hynod Ddymunol**

- Y gallu i weithio gydag offer a systemau datblygu dan arweiniad, gan eu cymhwyso'n effeithiol mewn llifoedd gwaith datblygu digidol.
- Sgiliau diagnostig a datrys problemau gwych, gan chwilio am ddatrysiadau sy'n greadigol ond hefyd yn ymarferol i broblemau cymhleth.
- Y gallu i gydweithio ar brojectau ac i adeiladu perthnasoedd gweithio da gydag amrywiol randdeiliad.
- Sgiliau cyfathrebu arbennig o dda sy'n gallu cyfleu termau technegol cymhleth yn glir a chryno i amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- Dull hyblyg a threfnus o weithio a'r gallu i gynllunio a threfnu gwaith yn annibynnol fel bod terfynau amser yn cael eu bodloni.

**Dymunol**

- Unigolyn sy'n meddwl yn rhesymegol ac yn dysgu'n gyflym gyda'r gallu i ddod i ddeall cysyniadau/systemau newydd yn gyflym.
- Y gallu i weithio'n fanwl gywir gan dalu sylw i fanylion ar lefel uchel
- Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n barod i ddysgu'r iaith.

## Gwybodaeth

**Hynod Ddymunol**

- Gwybodaeth am fframweithiau a thechnolegau ochr flaen a/neu ochr gefn, fel:
  - Angular neu Vue.js (fframweithiau ochr flaen modern tebyg)
  - Express.js (neu fframweithiau Node.js tebyg)
  - Python (e.e. Django, Flask) neu iaith/fframweithiau ochr gefn cyffredin eraill (e.e. Java/Spring, C#/.NET)
- Dealltwriaeth o safonau defnyddioldeb gwe, canllawiau hygyrchedd a datblygu traws-borwr.
- Gwybodaeth fanwl am ddylunio cymwysiadau ar gyfer ffôn symudol, tabled a bwrdd gwaith, gyda dealltwriaeth o'r nodweddion a'r datblygiadau diweddaraf ar gyfer cymwysiadau ar draws llwyfannau.

**Dymunol**

- Gwybodaeth a phrofiad o ddatblygiadau TGCh a'u goblygiadau o ran datblygu'r cwricwlwm
- Gwybodaeth am gynhyrchu cynnwys ar gyfer print.
- Ymwybyddiaeth o dueddiadau cyfredol o ran deallusrwydd artiffisial a dysgu peirianyddol.

## Profiad

**Hynod Ddymunol**

- Tystiolaeth o brofiad o ddwy neu fwy o'r technolegau canlynol wrth greu cynhyrchion a gwasanaethau:
    - HTML5 a CSS3
    - Systemau rheoli fersiynau gwasgaredig GIT
    - Sgiliau dylunio graffeg i greu templedi a brasfodelau
- Profiad o ddatblygu a phrofi dulliau AI neu integreiddio nodweddion y mae AI yn sail iddynt mewn cynhyrchion digidol neu fod yn barod i ddysgu am hyn.

**Dymunol**

- Profiad o greu cynhyrchion dysgu digidol.
- Profiad o weithio gydag API neu systemau y mae data yn sail iddynt sy'n defnyddio AI neu awtomeiddio.

## Hyfforddiant / Cymwysterau

**Hynod Ddymunol**

- Addysg i lefel Tystysgrif Genedlaethol Uwch (lefel 4) mewn pwnc perthnasol, neu brofiad proffesiynol cyfatebol.

**Dymunol**

- Gradd berthnasol neu brofiad proffesiynol cyfatebol

## Arall

**Dymunol**

- Diddordeb amlwg mewn dylunio UX/UI
- Brwdfrydedd dros ddatblygiad proffesiynol parhaus a gwella gwybodaeth am ddatblygu.

## **Telerau ac Amodau Gwasanaeth** / *Terms and Conditions of Service*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y Swydd /**<br>*Job Title:* | **Datblygwr Digidol /**<br>*Digital Developer* | | |
| **Cyflog /**<br>*Salary:* | **£35,403 - £38,745 y flwyddyn (pro-rata lle y bo'n gymwys) /**<br>*£35,403 - £38,745 per annum (pro-rata where relevant)* | **Gradd /**<br>*Grade:* | 7 |
| **Gwyliau Blynyddol /**<br>*Annual Leave:* | **25 diwrnod (182.5 awr) y flwyddyn. Mae CBAC hefyd yn darparu 16 diwrnod (116.8 awr) i gyfrif am Wyliau Cyhoeddus a chyfnodau Cau CBAC (gwyliau ychwanegol). Mae'r lwfansau hyn yn cael eu haddasu ar gyfer staff sy'n gweithio'n rhan-amser neu batrymau gweithio cywasgedig.**<br>*25 days (182.5 hours) per annum. WJEC also provides 16 days (116.8 hours) to account for Bank Holidays and WJEC Closure periods (Additional leave). These allowances are adjusted for staff who work part-time or compressed working patterns.* | | |
| **Pensiwn /**<br>*Pension:* | **Mae gofynion y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn berthnasol.**<br>*The provision of the Local Government Pension Scheme (LGPS) applies.* | | |

### **Math o Gytundeb** / *Contract Type:*

| **Oriau Gwaith** / *Working Hours:* | **Hyd y Contract** / *Length of Contract:* |
|---|---|
| ☒ **Llawn-amser** / *Full-time* | ☐ **Parhaol** / *Permanent* |
| ☐ **Rhan-amser** / *Part-time*<br>**Nifer yr oriau'r wythnos /** *No. of hrs per week:* 36.5 | ☒ **Tymor penodol** / *Fixed-term*<br>**Dyddiad gorffen arfaethedig /** *Planned end date:* **12 mis /** *12 months*<br>**Rheswm dros y cyfnod penodol /** *Reason for fixed-term:* **Gwaith project /** *Project Work* |

**Arall** / *Other:*

**Cyfnodau prysur llwyth gwaith /** *Workload Peaks:* **Amh /** *N/A*

### **Dull Ymgeisio** / *Method of Application:*

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi dros e-bost at AD@cbac.co.uk erbyn **23:59, dydd Sul 01 Chwefror 2026.**
**Disgwylir cynnal cyfweliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 09 Chwefror 2026.**

Completed forms should be sent by email to HR@wjec.co.uk by **23:59, Sunday 01 February 2026.**
**Interviews are expected to take place in the week commencing 09 February 2026.**